❖ Pwy ond Tydi, O Dduw?

Pwy ond Tydi, O Dduw,
fyddai'n dewis y gwan i gario'r cryf?
Ni'n ymddiried mewn byddin,
Ti'n ymddiried mewn baban.
Mor syml, mor syfrdanol dy weledigaeth:
'Canys bachgen a aned i ni,
mab a roddwyd i ni,
a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.'
Bachgen bychan yn arwain
fel bo'r blaidd yn trigo gyda'r oen,
y llo a'r llew yn cyd-bori,
a'r fuwch a'r arth yn gyfeillion.

Baban mewn preseb ail-law,
ac uwch ei ben yn plygu
y tlawd a'r cyfoethog,
gwerin a bonedd,
bugeiliaid a doethion.

Pwy ond Tydi, O Dduw
ddefnyddiai blentyn sugno
i ddwyn y pell yn agos,
i droi'r hunanol yn hael
fel bo'r barus yn barod i rannu.
Deuwn at ei breseb,
plygwn i'w addoli,
rhown iddo offrwm ein calon
fel yr awn o'ma
o stabl Bethlem i strydoedd y byd,
a cherdded ffordd tangnefedd, tosturi a thrugaredd;
rhodio llwybrau cyfiawnder a chariad
drwy ddilyn ôl ei droed.